# Gwasanaeth Ieuenctid Sir Fynwy

**Diben Gwasanaeth Ieuenctid Sir Fynwy yw 'grymuso pobl ifanc Sir Fynwy i ffynnu a llunio'r dyfodol'. Maent yn gwneud hyn trwy ddarparu amrywiaeth o ddarpariaethau, gan gynnwys tair canolfan ieuenctid yn y dref.**

**Fe wnaethom ni (Estyn, yr arolygiaeth dros addysg a hyfforddiant yng Nghymru) arolygu Ieuenctid Sir Fynwy ym mis Hydref 2025.**

## Beth gall pobl ifanc ei ddisgwyl gan Wasanaeth Ieuenctid Sir Fynwy:

- Mae gwaith ieuenctid yn Sir Fynwy yn helpu pobl ifanc i deimlo'n fwy hyderus, eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn barod ar gyfer y dyfodol. Mae gweithwyr ieuenctid yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc gwrdd â phobl newydd, dysgu medrau newydd a chael hwyl mewn mannau diogel lle gallant fod yn nhw eu hunain.

- Mae gweithwyr ieuenctid yn gwrando ar bobl ifanc, yn gofalu amdanynt, ac yn eu cefnogi. Maent yn helpu gyda phethau fel gofidiau ysgol, cyfeillgarwch ac iechyd meddwl. Dywedodd llawer o bobl ifanc wrthym eu bod yn ymddiried yn fawr yn eu gweithiwr ieuenctid.

- Mae gweithwyr ieuenctid yn helpu pobl ifanc i aros yn yr ysgol, gwneud dewisiadau iach a dysgu medrau bywyd fel coginio, gwaith tîm a gwneud penderfyniadau. Mae sesiynau creadigol fel cerddoriaeth, celf a ffilm yn helpu pobl ifanc i fynegi eu hunain a theimlo'n falch o'r hyn y gallant ei wneud.

- YMae gan bobl ifanc lais amlwg mewn ffurfio gwaith ieuenctid. Trwy 'Gwnewch Eich Marc' a chynadleddau ieuenctid, mae miloedd o bobl ifanc yn rhannu eu barn ar yr hyn sy'n cyfri fwyaf – fel costau byw, iechyd meddwl a chyflogaeth a medrau. Mae pobl ifanc yn gweld eu syniadau'n cael eu rhoi ar waith go iawn.

- Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn gwneud yn siŵr fod pawb yn teimlo'u bod yn cael eu cynnwys a'u parchu. Mae pobl ifanc o bob cefndir yn cael cymorth i gymryd rhan a dathlu pwy ydyn nhw.

- YMae gweithwyr ieuenctid yn angerddol ac wedi eu hyfforddi'n dda. Maent yn gweithio gydag ysgolion, cymunedau a sefydliadau eraill i wneud yn siŵr fod pobl ifanc yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir.

- Mae gan reolwr ac arweinwyr y gwasanaeth ieuenctid weledigaeth glir – helpu'r holl bobl ifanc yn Sir Fynwy i ffynnu a ffurfio'u dyfodol eu hunain. Maent yn defnyddio'r hyn mae pobl ifanc a staff yn ei ddweud wrthynt er mwyn parhau i wella'r hyn maent yn ei wneud.

Scan me!

Estyn

Dros ddysgwyr, dros Gymru